# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 4 Mai 2020

Amser: 13.04 - 15.51

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AS (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AS<br>Gareth Bennett AS<br>Vikki Howells AS<br>Delyth Jewell AS<br>Jenny Rathbone AS |
| Tystion: | Gawain Evans, Llywodraeth Cymru<br>Dr Andrew Goodall, Llywodraeth Cymru<br>Andrew Jeffreys, Dirprwy Gyfarwyddwr, Buddsoddi Cyfalaf Strategol, Llywodraeth Cymru<br>Shan Morgan, Llywodraeth Cymru<br>David Richards, Llywodraeth Cymru |
| Archwilio Cymru: | Adrian Crompton - Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Matthew Mortlock<br>Mike Usher |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc) |

| | |
|---|---|
| | Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Joanne McCarthy (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhianon Passmore AS.

## 2 COVID-19: Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru

2.1 Bu aelodau'r pwyllgor yn holi Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru a'i swyddogion ynghylch ymateb Llywodraeth Cymru i'r argyfwng iechyd cyhoeddus COVID-19, a'r camau a gymerwyd ganddi hyd yma.
2.2 Cytunodd yr Ysgrifennydd Parhaol i ysgrifennu at y Cadeirydd ynghylch nifer o faterion.
2.3 Wrth i Aelodau drafod y dystiolaeth a ddaeth i law, nodwyd eu bod am gael gwybodaeth ychwanegol, a bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Parhaol i ofyn am y wybodaeth hon.

## 3 Papur(au) i'w nodi

3.1 Cafodd y papurau eu nodi.

**3.1 Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - Trefniadau ar gyfer penodiadau staff uwch dros dro: Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (17 Mawrth 2020)**

**3.2 Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Llythyr gan Gomisiwn y Cynulliad (18 Mawrth 2020)**

**3.3 COVID-19: Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru (30 Mawrth 2020)**

**3.4 Craffu ar Gyfrifon 2019-20: Llythyr ar y cyd gan yr Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru (14 Ebrill 2020)**

**3.5 Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru (21 Ebrill 2020)**

**3.6 Cyfarwyddyd Gweinidogol - Trefniadau pensiwn y GIG ar gyfer 2019/20: Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru (23 Ebrill 2020)**

## 4 Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau o ran gwaith Swyddfa Archwilio Cymru

4.1 Rhoddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ddatblygiadau o ran rhaglen waith Archwilio Cymru yn sgil yr argyfwng iechyd Cyhoeddus COVID-19, a'r penderfyniadau a gymerwyd yn hynny o beth.

4.2 Nododd yr Archwilydd Cyffredinol fod y sefydliad bellach wedi newid ei enw i 'Archwilio Cymru' yn sgil adborth gan randdeiliaid, staff a'r cyhoedd yng Nghymru.